



## Noson Gwobrwyo nos Wener IOfed Tachwedd 2017

### Aelod newydd o staff y lawntiau

Rydym yn falch iawn o groesawu Chris Moore i'r clwb fel aelod newydd o dim y lawntiau. Mae Chris yn byw ym Mrynteg, Ynys Môn, yn 31 mlwydd oed ac mae wedi gweithio fel ceidwad lawntiau yng Nghlwb Golff Pwllheli am 14 mlynedd cyn cyrraedd Sant Deiniol.

Fel gweithiwr profiadol yn y maes, mae Chris eisoes wedi gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae'r cwrs yn cael ei gynnal. Mae o, gyda Gwynfor Roberts, bellach yn gallu manteisio'n llawn ar y peiriannau newydd sydd wedi derbyn eu gwasanaeth cyntaf o dan y cytundeb gyda'r cwmni sy'n eu llogi i ni. Golyga hyn fod staff y lawntiau yn gallu cynnal y cwrs i safon uchel ac mae'r holl beiriannau 'nawr mewn cyflwr da.

Mae Chris, ynghyd â chadeiryddion y lawntiau, yn bwriadu ail-agor y 3ydd lawnt ar gyfer tymor haf 2018. Byddwch wedi sylwi bod y 3ydd lawnt 'nawr yn edrych mewn cyflwr ardderchog, ac er y bydd llawer yn ei themlo'n sioc i'r system, bydd yn gyffrous cael chwarae'r 3ydd twll yn ôl yn ei hyd gwreiddiol unwaith eto.

Mae'r gwaith a wneir ar y cwrs dros fisoedd y gaeaf yn cynnwys:

- Creiddio'r lawntiau a rhoi trwch o wrtaith arnynt.
- Tros hadu'r 4ydd a blaen y 17eg
- Lefelu rhai o'r tîoedd; e.e., 2 / 3 / 12 / 13
- Gwella'r draenio, yn enwedig ar yr 2il, 5ed, 10fed, 16eg, ac ar y lawnt o flaen y clwb.

Mae Chris yn ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi cyfrannu trwy gydol y flwyddyn at wahanol brosiectau ac yn rhagweld y bydd angen eu cymorth dros fisoedd y gaeaf i glirio peth o'r eithin, a hefyd i helpu gyda phrosiectau lefelu tîoedd.

Hoffem fanteisio ar y cyfle yma i atgoffa'r aelodau bod llyfr awgrymiadau mewn poced ger y drws at y grisiau sy'n arwain i ystafell yr Ys-grifennydd. Os oes gan unrhyw aelod sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y cwrs, yna dylent nodi hynny yn y llyfr awgrymiadau. Apeliwn ar bob aelod i ymatal rhag mynegi eu barn yn uniongyrchol i staff y lawntiau.

### Enillydd cystadleuaeth Gornest 'Matchplay' Sir Gaernarfon 2017

Mae ein llongyfarchiadau calonnog yn mynd i Adam Jones a drechodd Jordan Roberts yng Nghlwb Golff Maesdu i ddod yn Bencampwr Gornest 'Matchplay' Sir Gaernarfon 2017. Da iawn Adam!

Mae'r teulu Jones wedi cael blwyddyn lwyddiannus eleni gan fod Gareth, tad Adam, yn Bencampwr Clwb St Deiniol 2017.



## Elusen y Capten.

Llongyfarchiadau i'n Capten, Mr Ifan Jones, ar ddiwrnod elusen llwyddiannus iawn a gododd y swm anhygoel o £2,552.00 ar gyfer elusen Cancer y Prostad UK. Diolch yn fawr i bawb a gynorthwyodd i wneud y diwrnod yn llwyddiant ysgubol.



## Toiledau a chawodydd

Rhagwelir y bydd gwaith adnewyddu gwir angenrheidiol ar doiledau a chawodydd y dynion yn dechrau yn ystod Ionawr 2018. Yn amlwg, bydd rhywfaint o anghyfleustra (!) yn ystod yr adnewyddu, ond rhagwelir y bydd y cyfleusterau mwy safonol yn rhyddhad mawr i aelodau. Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod y clwb yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer digwyddiadau megis brechwastau priodas a phartion eraill. Felly, mae'n ddyletswydd ar y clwb i sicrhau bod yr holl gyfleusterau o safon uchel a gobeithio y bydd hynny'n arwain at fwy o ymwelwyr yn defnyddio'r adeilad ac y daw mwy o refeniw gan grwpiau o'r tu allan.

## Mae'r Nadolig yn dod

Os na all eich teulu a ffrindiau benderfynu beth i brynu i chi fel anrheg Nadolig, beth am awgrymu eu bod yn prynu taleb clwb i chi, naill ai i fynd tuag at eich tâl aelodaeth flynyddol, neu fel taleb rhodd o'r siop golff.



## Adran y Merched

Llongyfarchiadau i Adran y Merched am ddod yn drydydd yng nghynghrair 4 cystadleuaeth "Cymdeithas Her-darian Merched Gogledd Cymru". Da iawn ferched. Yn ddiweddar fe chwaraewyd cystadleuaeth Cwpan Bayliss, cystadleuaeth "pedwarawdau cymysg" a enillwyd eleni gan Christine Jones a Kashmir Josson gyda sgôr anhygoel o 46 pwynt. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol I Chris fod yn rhan o'r tim buddugol. Gwelir Chris a Kash yma gyda Chaptan y Clwb a Chaptan Adran y Merched.



## Y Bêl Fonws – Arian mewn gwobrau ac arian i'r clwb

Mae Clwb y Bêl Fonws, sy'n seiliedig ar Bêl Fonws y Loteri Genedlaethol yn parhau i dalu gwobrau ariannol hael allan bob wythnos ac yn codi arian sylweddol i'r Clwb. Rydym yn talu £26 bob wythnos i enillwyr ac yn cyflwyno'r gweddill i Sant Deiniol. Daw hynny â £1404 i mewn i goffrau Sant Deiniol bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae 53 o aelodau felly mae lle i chi chwe aelod newydd i ymuno â'r Clwb. Ceisiwch berswadio aelodau i ymuno gan mai dim ond £1 yr wythnos mae'n gostio a gallwch dalu drwy'r banc gyda Gorchymyn Sefydlog o £4.33 y mis.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r trefnydd - Derfel Roberts ar 01248 600965, Symudol 07544543658 neu ebost: [hylaw@btinternet.com](mailto:hylaw@btinternet.com)